Natur Ar Eich Stepen Drws

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

# Ffosilau Ogwr


Mae'r cerrig yn Aberogwr yn adrodd stori moroedd trofannol, stormydd diffeithwch, a lefel y môr yn codi yn ne Cymru rhwng 350 a 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Peidiwch morthwylio’r clogwyni neu geisio datod ffosilau. Tynnwch luniau yn unig a gadewch y ffosilau i eraill eu mwynhau. Cymerwch ofal ar glogwyni serth, cerrig llithrig neu ar holltau cudd.

AMGUEDDFA CYMRU

013

## Jwrasig



Calchfaen llwydlas wedi eu ffurfio mewn moroedd cynnes, bas. I’w gweld mewn chwareli bach tu ôl i glogwyni fel arfer. Ffosilau weithiau.

*200m o flynyddoedd*

**bwlch o 15-20 miliwn o flynyddoedd**

## Triasig



Gwelyau caregog llwyd neu goch, rhai yn cynnwys cerrig mwy. Wedi eu dyddodi mewn ceunentydd diffaith wedi llifogydd sydyn a achoswyd gan stormydd.
Dim ffosilau.

*220m o flynyddoedd*

**bwlch o 120m o flynyddoedd (neu anghyffurfioldeb)**

## Carbonifferaidd

*340m o flynyddoedd*



Calchfeini Carbonifferaidd yw’r rhan fwyaf o’r cerrig yn Ogwr, wedi eu dyddodi mewn moroedd bas, clir, trofannol pan oedd Cymru'n agosach at y cyhydedd.

Mae'r cerrig yn llyfn ac yn llwyd fel arfer, wedi eu ffurfio mewn haenau llorweddol trwchus amlwg o'r enw gwelyau.

Mae'r ffosilau yn aml yn fwy amlwg pan mae'r cerrig yn wlyb.

Mae rhai ffosilau yn dangos niwed a achoswyd gan stormydd garw.

*345m o flynyddoedd*



**Cragen ddwyfalf**
*Pecten*
(6 - 8cm)



**Cragen braciopod**
*Productus*
(hyd at 6cm)




**Cragen braciopod**
*Delepinea*
(15 - 18cm)



**Cragen braciopod**
*Spirifer*
(hyd at 6cm)




**Cwrel Crychlyd Unig** *Zaphrentis*
(2 - 3cm)



**Cwrel Tablu**
*Syringopora*
Cytrefi hyd at 25cm



**Cwrel Tablu Cytrefol**
*Michelinia*
Gall cytrefi fod hyd at 20cm o led, neu ymdebygu i ddiliau mêl.



**Cwrel Crychlyd Unig**
*Caninia*
Gall unigolion fod hyd at 30cm o hyd a 6cm o led. Mae rhai wedi plygu yn sgil stormydd.



**Cragen gastropod**
*Eomphalus*
(hyd at 6cm)



**Cwrel Crychlyd Cytrefol**
*Solenodendron*
Cytrefi hyd at 30cm o led.



**Ôl ffosilau**
*Zoophycus*
Olion bwydo gan anifeiliaid yn cloddio.